

Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru

Uwch Beiriannydd Cyfathrebiadau TGCh

Parhaol
37 Awr yr wythnos

Gradd 10 - Cyflog: £29,055 - £29,909

(Yn amodol ar werthusiad swydd)

Rhif y Swydd: 503046

Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yw un o Wasanaethau Tân ac Achub mwyaf, mwyaf llwyddiannus ac uchaf ei berfformiad yn y DU, yn gwasanaethu 1.5 miliwn o bobl ar draws 10 Awdurdod Unedol Cyfansoddol yn ymestyn o Ben-y-bont ar Ogwr i Drefynwy ac o Fae Caerdydd i Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

Mae technoleg yn gydran gritigol o sut mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru'n helpu darparu'i weithgareddau o ddydd i ddydd.

P'un ai wrth ddanfôn ein criwiau i ddiwyddiadau gweithredol, sicrhau bod ganddynt fynediad at wybodaeth risg critigol neu wrth gefnogi swyddogaethau'r swyddfa gefn wrth reoli a threfnu ein hadnoddau, mae technoleg yn cyffwrdd â phob rhan o'n Gwasanaeth.

Cododd swydd wag gyffrous o fewn yr Adran TGCh ar gyfer Uwch Beiriannydd Cyfathrebiadau.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn darparu cymorth goruchwyliol ac arbenigol o ddydd i ddydd i Beirianwyr TGCh y Tîm Cyfathrebiadau.

Byddant yn sicrhau bydd galwadau i'r ddesg gymorth o fewn y Tîm Cyfathrebiadau TGCh yn cael eu clustnodi, eu dyrchafu lle bo'r angen a'u datrys.

Hefyd, byddant ynghlwm ag ystod eang o brosiectau heriol ynghyd â chefnogi cyflawniad cynlluniau busnes yr Adran.

Mae sgiliau iaith Gymraeg yn ddymunol ond nid yn hanfodol ar gyfer y swydd hon.

Pe hoffech wybod mwy am y swydd hon, cysylltwch â Chris Williams, Pennaeth yr Adran TGCh c-williams@southwales-fire.gov.uk neu ffoniwch 01443 232050.

Bydd angen i'r ymgeisydd llwyddiannus ymgymryd â'r prawf a'r gwiriadau canlynol cyn y gwneir unrhyw benodiad:

- Prawf Cyffuriau ac Alcohol
- Gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd

Gellir lawr lwytho Ffurflen Gais, Manyleb Person a Swydd-Ddisgrifiad o dudalennau gyrfaoedd ein gwefan www.decymru-tan.gov.uk. Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ffurflenni cais yw 12:00, ganol dydd, Ddydd Llun, 25 ain o Fawrth 2019.

Dylid dychwelyd Ffurflenni Cais gorffenedig i personnel@southwales-fire.gov.uk neu trwy bost i:- Y Tîm Recriwtio ac Asesu, Pencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, Parc Busnes Forest View, Llantrisant CF72 8LX. Mae'r dyddiad ar gyfer y broses ddedhol eto i'w gadarnhau.

Rydym yn sefydliad sy'n ystyriol o deuluoedd ac mae system gweithio hyblyg ar waith.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg a Saesneg ill dau a chrosawn gyfathrebiadau yn y naill iaith neu'r llall. Ni fydd ffurflenni cais a gyflwynir yn Gymraeg yn cael eu trin yn llai ffafriol.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru'n credu yng ngwir werth gweithlu amrywiol ac rydym yn dymuno annog yn rhagweithiol ymgeiswyr o bob sector cymdeithas i ymgeisio.

